



Ardal dreialu

Gweithio gyda'n partneriaid i reoli ein hadnoddau naturiol yn well

Fersiwn: Mehefin 2015

Cyflwyniad

Bydd Bil yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru'n gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yng Nghymru. I baratoi ar gyfer hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnal treialon archwilio mewn tair ardal yn nalgylchoedd y Rhondda, Tawe a'r Dyfi.

Prif bwrpas y treialon yw archwilio sut i ymgorffori dull integredig o reoli adnoddau naturiol mewn ardaloedd daearyddol penodol, helpu i ddylanwadu ar raglen Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgorffori trefn o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru, a manteisio ar gyfleoedd dysgu yn ystod y broses. Mae pob treial yn datblygu ei broses ei hun ond dyma rai o brif elfennau'r dull hwn: bydd yn seiliedig ar ardal; yn cynnwys rhanddeiliaid drwy gydol y treialon; yn seiliedig ar dystiolaeth; yn cynllunio ar gyfer y tymor hir; ac yn canolbwyntio ar bobl.

Fel rhan o'r dull newydd, mae Bil yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio Datganiadau Ardal sy'n amlinellu'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd a'r dystiolaeth ar gyfer lle gan gynnwys yr amgylchedd, y gymdeithas a'r economi. Bydd datganiadau ardal yn cynghori beth yw'r blaenoriaethau strategol yng nghyd-destun anghenion lleol, a bydd yn cyfrannu at yr Asesiad Anghenion a'r Cynlluniau Lles fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y datganiadau'n cyfrannu at gynlluniau eraill ar gyfer y lle, e.e. cynlluniau datblygu lleol. Hefyd bydd angen ystyried cyfleoedd i'w cynnwys yn rhan o brosesau cynllunio eraill.

Y Rhondda

Mae'r Rhondda wedi ei fendithio ag amgylchedd naturiol eithriadol ac mae'n enwog am ei dreftadaeth ddiwydiannol a'i gymunedau clos, cadarn. Fodd bynnag, mae'r Rhondda hefyd yn rhannu'r amrywiaeth nodweddiadol o heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gellir eu canfod ar draws Cymoedd De Cymru.

Mae dau brif gwm yn y Rhondda; y Rhondda Fawr a'r Rhondda Fach. Yn gyffredinol mae gan y rhain ochrau serth ac mae llawr y cymoedd yn gul a datblygedig/trefol, gyda ffriddoedd ar ochr y cymoedd, fforestydd, coetiroedd cynhenid, tir glas wedi ei wella, prysgwydd a thyfiant. Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru sydd i gyfri am tua 40% o'r dalgyrch.



Golygfa o Flaenrhondda, yn edrych tua'r de-ddwyrain

Trafodaethau Cychwynnol

Ers dechrau 2014, rydym wedi cyfarfod ag amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid yn y Rhondda i helpu i restru rhai o'r prif heriau, y blaenoriaethau'r a'r cyfleoedd yn yr ardal.

Mae hyn wedi cynnwys cyfarfod a gweithio gyda sefydliadau, grwpiau cymunedol, busnesau lleol, gwirfoddolwyr a thrigolion y Rhondda. Mae'r awdurdod lleol (Rhondda Cynon Taf) yn bartner allweddol ac aethom ati i amlinellu ein dull yn eu Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Rhag dyblygu ac er mwyn sicrhau bod gennym gysylltiadau clir â chymunedau lleol, rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda chydlynnydd lleoedd Cynefin (Gabi Torkington) yn Rhondda Cynon Taf.

O'r dechrau, rydym wedi trafod gyda phartneriaid, grwpiau ac unigolion heb agenda penodol. Mae hyn wedi annog trafodaethau penagored, rhannu gwybodaeth a syniadau creadigol sy'n fwy cydnaws â'r ardal, ac mae wedi bod yn fodd i ni ddatblygu ein gwybodaeth a'n sylfaen dystiolaeth.

Dyma rai o'r prif themâu ar gyfer y Rhondda a ddeilliodd o'n trafodaethau cychwynnol:

- Iechyd a lles
- Mynediad at fannau gwyrdd
- Gwytnwch a diogelwch
- Ffyniant a chydraddoldeb
- Rheolaeth addas / well o'r tir cyhoeddus

Mae'r dull sy'n seiliedig ar ardaloedd yn parhau i gael ymateb eiddgar a brwd gan ein partneriaid a'n rhanddeiliaid sy'n awyddus i fod yn rhan o'r treialon a gweithio gyda ni.



Gweithio gyda phartneriaid

Yn 2015, dechreuwyd ffurfioli'r dull trwy gynnal cyfres o weithdai i helpu i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y Rhondda, lle byddwn, yn y pendraw, yn ceisio paratoi a chynhyrchu Datganiad Ardal.

Cynhaliwyd ein digwyddiad ffurfiol cyntaf i randdeiliaid yn y Rhondda ar 24 Mawrth 2015. Pwrpas y digwyddiad oedd dod ag amrywiaeth eang o bartneriaid, grwpiau cymunedol a thrigolion at ei gilydd, a dechrau rhestru'r prif heriau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yr ardal mewn ffordd fwy integredig.



Deilliodd 7 prif thema o'r gweithdy ar gyfer y Rhondda:

1. Rheoli tir cyhoeddus ac Adfer Natur
2. Casglu beth sy'n gweithio a rhannu'r dysgu (h.y. syniadau, modelau, astudiaethau achos yn gysylltiedig â datblygiad cymunedol a natur integredig, yn seiliedig ar asedau)
3. Creu 'gwarcheidwaid medrus': yn cynnwys pobl leol yn y lleoedd o'u cwmpas
4. Gwella cysylltiadau ag iechyd a hamdden yn yr awyr agored (datblygu sylfaen dystiolaeth)
5. Adfer Hydroleg yn y Rhondda
6. Gwella Mynediad at Gefn Gwlad
7. Newid Canfyddiadau o'r Rhondda (adfywio economaidd, twristiaeth)

Gallwch ofyn am gopi o'r adroddiad a gyhoeddwyd ar y digwyddiad trwy e-bostio rhondda@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk <<mailto:rhondda@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk>>

Prosiectau

Neilltuwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i'r tair ardal treialu ar gyfer gweithgareddau / prosiectau a fydd yn sicrhau'r manteision ehangaf posibl, ac a fydd yn helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o agweddau ymarferol a gweithredol ar reoli adnoddau naturiol.

Gan weithio gyda'n partneriaid yn y Rhondda rydym yn cyflawni nifer o brosiectau, gan gynnwys:

- Gweithio gyda phartneriaid i helpu i atal tannau gwyllt a achosir gan danau bwriadol a hybu bioamrywiaeth ([mwy o wybodaeth isod](#));
- Gweithio gyda phrosesau naturiol i helpu i leihau'r perygl o lifogydd i Gwmparc a sicrhau manteision i fywyd gwyllt;
- Gwelliannau yng nghoetir Llanwynno o safbwynt mynediad, addysg amgylcheddol, manteision iechyd a lles;
- Hyfforddi grwpiau cymunedol i reoli rhywogaethau ymledol a gwella eu hamgylchedd lleol;
- Astudiaeth ddichonoldeb sy'n argymhell ffyrdd i wella'r modd y rheoli tir cyhoeddus ar gyfer peillyddion a helpu i fynd i'r afael â'r broblem o ostyngiad eang drwy'r Deyrnas Unedig;
- Cynnal digwyddiadau addysg yn yr awyr agored - 'Bio-blits' gyda chymunedau lleol yn cofnodi a chasglu gwybodaeth a data am rywogaethau.

Datblygwyd y syniadau ar gyfer y prosiectau uchod trwy siarad a gwrando ar ein partneriaid, a'n dull yw sicrhau dysgu drwy fynd ati i weithredu ar lawr gwlad. Mae egwyddorion y dull ecosystem wedi eu cynnwys wedi eu hymgorffori yn y broses o gynllunio a darparu'r prosiectau hyn.



Mae'r prosiectau hyn a rhai eraill eisoes ar y gweill a byddant wedi eu sefydlu a/neu eu cwblhau erbyn Medi 2015.

Astudiaeth achos: Golwg fanylach ar ein gwaith gyda phartneriaid i helpu i atal tanau gwyllt a hybu bioamrywiaeth

Mae gan y Rhondda rai o brif gynefinoedd bryniau a glaswelltir â blaenoriaeth Cymru ar hyd ochrau'r cwm. Fodd bynnag, mae'r ardal yn wynebu risg parhaus gan danau a achosir yn fwriadol. Mae Cymoedd De Cymru'n arbennig o dueddol o gael tanau gwyllt gan mai'r cynefin nodweddiadol yw'r ffridd / coed cae - dyma'r ardal rhwng gwaelod y cwm a'r tir uchel. Mewn sawl rhan o gymoedd De Cymru, mae'r cynefin ffridd wedi dod yn rhan o ungnwd o redyn a/neu eithin, tra bod porfa rhostir (tir glas corsiog gwlypach a rhostir gwlyb) yn gallu cael ei gorchuddio'n llwyr gan laswellt y gweunydd (Molinia). Ar ddechrau'r gwanwyn pan fo'r rhedyn wedi gwywo a thyfiant y llynedd glaswellt y gweunydd wedi sychu (a chyn i flagur gwyrdd y tyfiant newydd ymddangos) mae ffynhonnell barod o ddeunydd crin sy'n llosgi'n hawdd.

Yn ystod gwanwyn 2015, arweiniodd cyfuniad o dywydd sych a chynnes ynghyd â llawer o ddeunydd crin ar ochrau'r bryniau (rhedyn a glaswellt y gweunydd/Molinia) at fwy na 800 o danau yng Nghymoedd De Cymru, gyda'r rhan fwyaf yn digwydd yng Nghwm Rhondda. Yn anffodus, nid oedd y flwyddyn hon yn wahanol ac mae'n dal i ddifetha'r amgylchedd, yr economi a'r cymunedau lleol.

Fel rhan o'n gwaith yn y Rhondda, un o'r prif faterion a nodwyd gyda phartneriaid o'r cychwyn yw'r drefn amhriodol o reoli tir (ar dir sydd mewn perchnogaeth breifat a chyhoeddus) yn y Rhondda. Un canlyniad amlwg i hyn yw perygl tanau gwyllt, sydd nid yn unig yn risg i bobl ac eiddo, ond sydd hefyd yn cael effaith negyddol sylweddol ar yr amgylchedd yn cynnwys: colli bioamrywiaeth, llygredd gwasgaredig cynyddol, erydu pridd, colli safleoedd treftadaeth, effaith ar iechyd yr amgylchedd a'r effaith weledol. Mae'r tanau hefyd yn amharu ar fynediad at safleoedd hamdden ac yn atgyfnerthu canfyddiadau negyddol o Gymoedd De Cymru.

Dangosir y difrod helaeth a achoswyd gan danau gwyllt bwriadol yn y lluniau isod o Tylorstown, Rhondda yn ystod gwanwyn 2015.



Treial y Rhondda: cydweithio i sicrhau ateb posibl

O ystyried effeithiau dinistriol tanau gwyllt yn y Rhondda, aethom ati i ffurfio grŵp llywio gyda'n partneriaid i ddatblygu strategaeth a phrosiect cynaliadwy hirdymor i reoli tir yn well yn y Rhondda. Y nod pennaf yw helpu i leihau achosion o danau gwyllt, a'u difrifoldeb, ond hefyd i geisio gwella bioamrywiaeth a mynediad at ochrau'r brynau i bobl eu mwynhau. Fel rhan o'r cynllun hwn, rydym yn gweithio gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf, Cyngor Merthyr Tudful, Cyngor Caerffili, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, PONT, Gwarchod Gloÿnnod Byw Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae pob parti'n cytuno bod trefn fwy cynaliadwy o reoli tir ar ystâd yr awdurdod lleol, Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru, a safleoedd o fewn perchnogaeth breifat yn hollbwysig. A thra bod yn rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru barhau i addysgu pobl a chodi ymwybyddiaeth, rydym yn cymryd mesurau rhagweithiol ar lawr gwlad i atal tanau bach a achosir yn fwriadol rhag lledaenu ar draws brynau cyfan. Mae'r grŵp llywio'n cynnig y camau allweddol canlynol i helpu i leihau'r deunydd crin ar y tir ac adfer gwerth bioamrywiaeth: creu bylchau yn y llystyfiant, troi bridiau gwartheg traddodiadol i bori ardaloedd am gyfnod byr, trwyddedau pori cadwraeth, a llosgi dan reolaeth.

Un elfen hanfodol i gyflawni hyn yw cael adnodd penodedig, h.y. swyddog lleol yn yr ardal sy'n gallu cysylltu â'r sefydliadau a'r ffermwyr dan sylw. Mae'r grŵp wedi cydweithio, a rhagwelir y bydd swyddog wedi ei benodi erbyn Haf 2015. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu ystod eang o broblemau sy'n cyfrannu at achosi tanau gwyllt bwriadol, ond hefyd byddwn yn gallu cynllunio a gweithredu ar lawr gwlad i helpu i atal a/neu leihau effeithiau niferus tanau gwyllt. Bydd y dull integredig hwn yn helpu'r economi lleol, sgiliau hyfforddi ac addysg lleol, a bydd yn helpu i ddiogelu brynau a bywyd gwyllt y Rhondda (yn cynnwys safleoedd dynodedig a rhywogaethau a warchodir gan Ewrop).



Llosgi dan reolaeth yn Nhonypandy, Rhondda




Gwartheg yr Ucheldir yn pori am gyfnod / dwysedd isel

Troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Ers i ni gychwyn y treial ar ddechrau 2014, un pwnc sy'n cael ei drafod yn gyson gyda phartneriaid a thrigolion yw troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Trafodir yn benodol y ffordd y mae'n tansellio diogelwch a lles trigolion, yn effeithio ar yr economi lleol a'r amgylchedd, yn gwneud niwed i ffyniant yr ardal, ac yn atgyfnerthu canfyddiadau negyddol o'r Rhondda a Chymoedd ehangach De Cymru.

Gwaetha'r modd, mae trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru'n broblem gyson. Ymysg rhai o'r gweithgareddau anghyfreithlon / gwrthgymdeithasol nodweddiadol sy'n digwydd mae: lladrata metel, tresbasu oddi ar y ffordd, fandaliaeth, tipio anghyfreithlon, cŵn yn baeddu, gwefr yrru, tanau, potsio a throseddau yn erbyn bywyd gwylt. Mae hyn yn cael effaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Er mwyn dechrau mynd i'r afael â hyn, rydym yn gweithio gyda'n tîm Cymunedau ac Adfywio a gynhaliodd weithdy 'Mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad anghyfreithlon ar ystâd Cyfoeth Naturiol Cymru' yn Ebrill 2015, gyda phartneriaid a chydweithwyr perthnasol. Ymysg y rhai a oedd yn bresennol roedd: Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru, Rhondda Cynon Taf, Taclo Tipio Cymru a chynghorwyr / swyddogion eraill.



Pwrpas y gweithdy oedd:

- Canfod rhai o achosion sylfaenol troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Asesu goblygiadau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o safbwynt ariannol ac adnoddau ar Ystâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru
- Egluro rôl yr Awdurdod Lleol mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, Deddf Troseddu a Phlisma 2014 a dyletswyddau cyfreithiol Cyfoeth Naturiol Cymru o safbwynt troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar yr ystâd

Gallwch ofyn am gopi o adroddiad terfynol y digwyddiad trwy e-bostio rhondda@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk <<mailto:rhondda@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk>>

Deilliodd nifer o gamau gweithredu o'r gweithdy ac mae cefnogaeth i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae angen amlwg nid yn unig i gydlynu dull Cyfoeth Naturiol Cymru o ddelio â'r materion a godwyd, ond hefyd i sicrhau trefn effeithiol o gyfathrebu a chydlynu ar lefel strategol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'i bartneriaid. Gallai hyn achub y blaen ar rôl y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a darparu cyfleoedd addysgu i sefydliadau weithio'n well gyda'i gilydd a datblygu dull amlasiantaethol.

Treial y Rhondda: camau nesaf

- Gweithdai'r Rhondda:** Yn dilyn ein gweithdy rhanddeiliaid ym Mawrth, rydym yn cynnal digwyddiad dilynol ar 4 Mehefin 2015. Y nod yw adeiladu ar ein cynnydd hyd yma, a pharhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r 7 thema er mwyn helpu i wneud y Rhondda'n lle iachach, gwynnach a mwy ffyniannus.
- Rydym yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau lleol gyda chymunedau yn y Rhondda yn ystod haf 2015, mewn partneriaeth â Cynefin.
- Datganiad Ardal:** Mae Bil yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i lunio Datganiadau Ardal sy'n amlinellu'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd a'r dystiolaeth ar gyfer lle gan gynnwys yr amgylchedd, y gymdeithas a'r economi. Gan adeiladu ar ein gwaith gyda phartneriaid yn ein digwyddiadau rhanddeiliaid, y bwriad yw dechrau paratoi Datganiad Ardal drafft yn Hydref 2015 gan gynhyrchu datganiad ar ddechrau 2016.
- Darparu'r prosiect:** Mae ein prosiectau ar y gweill a bydd cerrig milltir allweddol yn eu lle a/neu wedi eu cwblhau erbyn Medi 2015. Bydd nodau a thargedau 'cyflawnadwy' hirdymor yn cyfrannu at ein cyfleoedd dysgu i ddylanwadu ar ein dull a'r Datganiad Ardal.

Gwybodaeth bellach


Cysylltwch â Christian neu Becky ar rhondda@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os hoffech gael mwy o wybodaeth am y treial ardal yn y Rhondda.

gwefan www.naturalresources.wales

e-bost enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

 @NatResWales

ffôn Canolfan Gofal Cwsmeriaid 0300 065 3000 (dydd Llun-dydd Gwener, 8am-6pm)



Gwneud y mwyaf o'n hasedau yn y Rhondda
Ffeithlun a grewyd yng Ngweithdy Rhanddeiliaid y Rhondda, 24 Mawrth 2015.